Gwella a Sicrhau Ansawdd yng Nghymru

Darlun sy'n Newid?

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol 1

1. Diben yr adroddiad 3

2. Cefndir a chyd-destun 4

3. Methodoleg 7
   - 3.1 Proses
   - 3.2 Cyfyngiadau'r ymchwiliad

4. Effaith newid. 9
   - 4.1 Newid diweddar a pharhaus yn y sector yng Nghymru
   - 4.2 Newidiadau mawr mewn sefydliadau
   - 4.3 Yr hyn sy'n symbylu newid i wella ansawdd

5. Diffiniadau a chysyniadau gwella ansawdd 13
   - 5.1 Diffiniadau a chysyniadau
   - 5.2 Gwella beth?
   - 5.3 Gwella ac 'arfer da'
   - 5.4 Y berthynas rhwng gwella ansawdd a sicrhau ansawdd
   - 5.5 Agweddau at graffu'n allanol ar wella ansawdd
   - 5.6 Arloesi a risg

6. Strategaethau ar gyfer gwella ansawdd 20
   - 6.1 A yw gwella'n gallu bod yn strategol?
   - 6.2 Ymagweddau eglur ac ymhlyg at ddatblygu gwella ansawdd
   - 6.3 Arweinyddiaeth ar wella ansawdd
   - 6.4 Perthynas gwella ansawdd â chenhadaeth, cynllun corfforaethol, a strategaethau sefydliadol

7. Strwythurau a phrosesau gwella ansawdd 24
   - 7.1 Strwythurau sefydliadol i gefnogi'r gwella
   - 7.2 Ymgysylltu myfyrwyr â sicrhau ansawdd a gwella ansawdd

8. Gwerthuso effaith gwella ansawdd. 28

9. Cymorth allanol i wella ansawdd 30

10. Heriau wrth fynd i'r afael â gwella ansawdd. 31

11. Cymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon 32

12. Casgliadau. 34

Atodiad 1 – Templed holiadur 37

Atodiad 2 – Sefydliadau sy'n cyfranogi 39

Crynodeb Gweithredol

Yr adroddiad hwn yw canlyniad cydastudiaeth gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) a'r Academi Addysg Uwch (yr Academi) a fu'n archwilio newidiadau sy'n digwydd ym maes sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yng Nghymru. Roedd adroddiad blaenorol yn 2008 yn canolbwyntio ar Loegr a Gogledd Iwerddon. Ar y cyfan, diben y prosiect yng Nghymru oedd rhoi gwybod i'r sector am arfer a datblygiad cyfredol a chefnogi ac annog sefydliadau AU i wella ansawdd ar amryw lefelau, er enghraifft drwy ddatblygu cwricwlwm ar y naill llaw ac fel rhan o ymagwedd sefydliadol fwriadol a systematig ar y llaw arall.

Aeth y prosiect ati i gasglu a dadansoddi data o wybodaeth a gasglwyd drwy drafodaethau lled-strwythuredig â sefydliadau AU yng Nghymru a gynhaliwyd drwy gynllun cyswllt sefydliadol ASA.

Ymhlith y nodweddion allweddol a nodwyd ar gyfer cyd-destun Cymru oedd 'agosrwydd' y llywodraeth at addysg uwch. Yn ystod y degawd diwethaf mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod amrywiaeth o flaenoriaethau ar gyfer addysg uwch. Y blaenoriaethau amlycaf fu'r rheini sy'n gysylltiedig ag ehangu mynediad, datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, sgiliau a chyflogadwyedd, ac ad-drefnu a chydweithio rhwng sefydliadau AU. Mewn ymateb, mae datblygiadau strategol mewn sefydliadau AU wedi mynd i'r afael â'r angen i wella mynediad a chyfraddau cadw, cryfhau sgiliau a chyflogadwyedd graddedigion, parhau twf y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac ystyried mwy o gydweithio ar draws sector AU Cymru. Nododd sefydliadau bryderon (a chyfleoedd)mewn perthynas â maint bach y sector AU yng Nghymru, yr her ddwyieithog a'r angen i osgoi ymagweddau plwyfol at wella ansawdd. Roedd y pryderon hyn yn cydnabod bod sefydliadau Cymru'n cystadlu mewn amgylchedd DU gyfan, Ewropeaidd a byd-eang.

Er nad oedd yr astudiaeth yn nodi unrhyw gytundeb cyffredinol ar ddiffiniad ar gyfer gwella ansawdd, cydnabuwyd yn gyffredin fod gwella'n ymwneud yn bennaf â phrofiad y myfyriwr, yn arbennig y profiad dysgu. Un argraff gyffredin oedd bod gwella ansawdd yn datblygu'n naturiol yn sgil sicrhau ansawdd. Roedd yr olaf, drwy ei brosesau, yn darparu tystiolaeth a deunydd yn sail i wella ansawdd. Ystyriwyd bod prosesau fel monitro blynyddol, dilysu rhaglenni, ac adolygu thematig yn rhoi'r dystiolaeth a allai lywio gweithgareddau a datblygiad gwella. Roedd sefydliadau'n gweld bod angen craffu allanol i gynorthwyo'r sefydliad i gynnal

ansawdd a safonau ond cytunwyd yn gyffredinol fod angen i'r broses graffu allanol ar wella fod yn sensitif i gyd-destun sefydliadol a'r berthynas rhwng arloesi a risg.

Roedd ymatebion sefydliadau'n nodi bod y cyswllt agos rhwng sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yn cael ei dderbyn yn gyffredinol ond roedd gwahaniaeth barn ynghylch i ba raddau y mae angen eu cyfannu. Roedd cyfannu sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yn dibynnu i ryw raddau ar strwythur mewnol ac arfer gweithredu sefydliad; roedd rhai'n cadw staff sicrhau a staff gwella yn yr un lle, a sefydliadau eraill yn rhoi mwy o bwyslais ar gyfannu drwy strwythurau pwyllgor. Ar y cyfan, nid oedd cyfannu staff 'ansawdd' yn ffisegol yn flaenoriaeth i staff gweinyddol uwch yn sefydliadau Cymru.

Nodwyd bod symbylyddion gwella yn rhai o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny. Roedd y symbylyddion o'r brig i lawr yn adlewyrchu gofynion polisi cenedlaethol ac ASA ac roedd angen arnynt arweinyddiaeth uwch reolwyr yn y sefydliad. Roedd arweinyddiaeth yn cael ei darparu'n gyffredin gan Ddirprwy Is-ganghellor yr oedd ei bortffolio fel rheol yn cynnwys datblygu dysgu ac addysgu. Roedd yr ymagwedd o'r gwaelod i fyny yn adlewyrchu arfer a datblygiadau yn yr ystafell ddosbarth ac yn cael ei meithrin yn gyffredinol ar lefel Cyfadran neu Ysgol yn aml gyda chymorth uned bwrpasol fel canolfan ragoriaeth mewn dysgu ac addysgu. Nid oedd sefydliadau'n ystyried bod gwella ansawdd ymhlith prif symbylyddion strategaeth sefydliadol ond yn ystyried ei fod yn agwedd allweddol yn holl waith y sefydliad ac yn rhan annatod o gynllunio sefydliadol.

Ystyriwyd bod ymgysylltu myfyrwyr â gwella yn bennaf yn cynnig gwerthusiad o fodiwlau, rhaglenni a'r sefydliad yn gyffredinol drwy arolygon mewnol, drwy Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (ACM), a thrwy gyfranogi mewn pwyllgorau ymgynghori staff a myfyrwyr a fforymau eraill. Ar hyn o bryd, gellir ystyried bod cyfraniad myfyrwyr yn ymwneud yn helaeth â phrosesau sicrhau ansawdd a phrin y soniwyd yn ymatebion y sefydliadau am ymgysylltu mwy gweithgar â gwella ansawdd.

Ar y cyfan, datgelodd y prosiect ddiddordeb cryf ac egnïol mewn hyrwyddo gwella ansawdd yn sefydliadau Cymru. Yn ôl y disgwyl, roedd ymagweddau amrywiol at wella ac nid oedd y prosiect yn chwilio am atebion 'cywir' ar gyfer hyrwyddo gwella. Serch hynny, roedd llawer yn gyffredin rhwng sefydliadau a oedd efallai'n adlewyrchu maint bach a pherthynas glòs y gymuned AU yng Nghymru. Roedd y tir cyffredin hwn yn cynnwys: derbyn bod gwella'n berthnasol yn bennaf i brofiad y myfyriwr; cydnabod bod y diffiniad 'camau bwriadol' o wella a gynigiwyd gan ASA yn addas at ddiben adolygu; defnyddio ACM yn arf i werthuso a llywio gweithredu; boddhad cyffredinol uchel i uchel iawn y myfyrwyr a adroddwyd drwy ACM.

1. Diben yr adroddiad

1.1 Lluniwyd yr adroddiad hwn o ganlyniad i gydweithio gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) a'r Academi Addysg Uwch (yr Academi) a fu'n archwilio'r ffordd y mae newidiadau'n digwydd ym maes sicrhau ansawdd a gwella ansawdd ar draws y sector addysg uwch yng Nghymru. Mae'r cyd-destun ar gyfer yr archwilio hwn yn deillio'n rhannol o ganolbwyntio'n fwy ar wella yn y prosesau newydd ar gyfer Adolygu Sefydliadol. Mae hefyd yn arwydd o'r diddordeb cynyddol mewn gwella y mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), ASA a'r Academi yn ceisio ei gefnogi. Ar ôl ymgynghoriad rhwng y tair asiantaeth i gyd, cafodd tîm bychan o staff yr Academi ac ASA y dasg o fynd ymlaen â phrosiect i astudio datblygiadau cyfredol o ran gwella ansawdd.

1.2 Roedd y prosiect yng Nghymru'n estyn prosiect tebyg a gynhaliwyd, ar y cyd â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE), yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2007–08. Mae adroddiad y prosiect rhagflaenol hwn ar gael yn: www.heacademy.ac.uk/assets/York/Events/Past_Events/Documents/QualityEnhancementreport.pdf.

1.3 Ar y cyfan, diben y prosiect a arweiniodd at yr adroddiad hwn oedd cefnogi ac annog sefydliadau AU yng Nghymru i fynd ar drywydd gwella ansawdd ar amryw lefelau. Mae gwella'n gallu amrywio o arloesi a datblygu cwricwlwm ag effaith amlwg ar brofiad dysgu'r myfyriwr i archwilio'r ffyrdd amrywiol y gall gwella ansawdd fod yn rhan o ymagwedd fwriadol a systematig at ansawdd. Mewn termau rhy syml efallai, mae canlyniadau'n gallu nodweddu'r math cyntaf o wella tra bo'r ail fath yn rhan o broses. Bwriad tîm y prosiect oedd rhoi gwybod i'r sector y ffyrdd amrywiol y caiff 'gwella ansawdd' ei gysyniadu, ei arwain, ei reoli a'i gefnogi yn sefydliadau Cymru ag amryw nodweddion a chenadaethau.

1.4 Un o fannau cychwyn pwysig y prosiect yng Nghymru oedd nodi'r diffiniadau sefydliadol amrywiol o wella er mwyn deall yn well yr ystod o ymagweddau sy'n briodol mewn sector amrywiol. Nod atodol y prosiect oedd cefnogi datblygiad parhaus proses adolygu sefydliadol effeithiol i Gymru. Un o'r agweddau pwysig ar hyn fydd cefnogi timau adolygu i ddod i ddeall mewn cyd-destun addas yr ymagweddau amrywiol at wella ansawdd sy'n bodoli ar hyn o bryd yn sefydliadau Cymru.

2. Cefndir a chyd-destun

2.1 Dros y degawd diwethaf mae'n bosibl olrhain pwyslais cynyddol ar wella ansawdd yn eglur ar draws sector addysg uwch y DU.

2.2 Mewn sefydliadau, mae gwella dysgu ac addysgu, a ystyrir yn aml yn rhan ymhlyg o waith athrawon unigol, yn destun mynegiant eglur cynyddol drwy, er enghraifft, cynadleddau dysgu ac addysgu blynyddol mewn sefydliadau. Yn aml iawn, mae strwythurau a phrosesau i gefnogi gwella ansawdd yn cael mwy o sylw nag yn y gorffennol. Rhan o'r bwriad sy'n sail i'r cydweithio rhwng ASA a'r Academi yw profi a yw ymagweddau sefydliadol yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar wella ansawdd, ac i ba raddau.

2.3 Mae eisoes rhywfaint o dystiolaeth o'r newid hwn yn strategaethau dysgu ac addysgu sefydliadol Cymru ar gyfer 2007–10, sy'n cyfeirio'n fwy penodol at wella a'i gysylltiadau â sicrhau ansawdd. Mae adroddiad am y strategaethau dysgu ac addysgu ar gael yn: www.heacademy.ac.uk/aboutus/wales/our_work_wales/policy.

2.4 Efallai y dangosir hyn orau yn y ffordd y mae sefydliadau Cymru wedi defnyddio Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (ACM) ac arolygon mewnol myfyrwyr, sef ymagwedd sicrhau ansawdd i bob pwrpas, i lywio eu cynlluniau gweithredu i wella profiad y myfyriwr. Mewn rhai achosion, caiff y berthynas rhwng sicrhau a gwella ei hamgyffred yn berthynas hierarchaidd – ystyrir bod sicrhau ansawdd ymhlith cydrannau angenrheidiol gwella effeithiol, neu fel arall. Mewn achosion eraill, mae sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yn gysyniadau sy'n atgyfnerthu ei gilydd, ond yn gyfochrog.

2.5 Caiff y ffocws esblygol ar wella ansawdd ei adlewyrchu mewn cyrff trawssectoraidd fel CCAUC, ASA, JISC a'r Academi, a'i gefnogi ganddynt. Roedd Cylchlythyr W04/06HE CCAUC, *Mecanweithiau i gefnogi addysgu rhagorol mewn addysg uwch* (Ionawr 2004), yn nodi'r nodweddion allweddol ar y camau i gefnogi addysgu rhagorol i'w mabwysiadu gan CCAUC o 2004-05 ymlaen, sef drwy ddatblygu: strategaethau dysgu

ac addysgu sefydliadol; strategaethau adnoddau dynol sefydliadol (gan gynnwys dyrchafiadau a arweinir gan addysgu); a gwella thematig a phwnc. Yn ogystal, hyrwyddodd CCAUC drafodaethau am ffyrdd o gydgysylltu a chefnogi gweithgarwch gwella ansawdd yn sector Cymru. Yn ddiweddarach ym mis Hydref 2008, trefnodd CCAUC gynhadledd *'Llywio ymagwedd CCAUC at wella ansawdd mewn addysg uwch'*. Un cynnig gan CCAUC yn y cyfarfod hwn oedd creu ymagwedd fwy gweladwy at wella cyfleoedd dysgu drwy efallai gydgyfrannu adnoddau a chwtogi ar ddyblygu ymdrech a gweithgareddau.

2.6 Mae'r Academi Addysg Uwch yn gorff â chylch gwaith DU-gyfan penodol i gefnogi gwella. Mae ei gwaith mewn perthynas â safonau proffesiynol a chymunedau pwnc drwy'r rhwydwaith o 24 canolfan bwnc wedi dylanwadu mwyfwy ar y ffordd y mae sefydliadau AU yn ystyried gwella. Un o nodweddion ei gwaith yng Nghymru yw'r cyswllt agos sydd ganddi â CCAUC, Addysg Uwch Cymru (cangen Cymru o Universities UK) a sefydliadau (drwy ei Grŵp Sefydliadau Cymru ei hun) wrth ddatblygu ei rhaglen o weithgareddau gwella. Ymhlith yr ymagweddau gwella cyfredol yng Nghymru mae'r profiad blwyddyn gyntaf, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, asesu ac adborth a'r cyswllt rhwng addysgu ac ymchwil. Mae sector AU y DU ar y cyfan yn parhau i ystyried bod cymorth i wella ansawdd yn bwysig iawn ac mae'r Academi'n cynllunio ffocws mwy yn 2009–10, gan gynnwys gwaith ynghylch ymagweddau traws-sefydliadol at ACM.

2.7 Mae ASA hefyd wedi annog y ffocws cynyddol ar wella ansawdd cyfleoedd dysgu. Mae datblygu ymagwedd a arweinir gan wella yn yr Alban yn sicr wedi dylanwadu ar feddwl mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r cylch cyfredol o archwilio Sefydliadol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, a ddechreuodd yn 2006–07, wedi ymgorffori ffocws mwy ar wella ansawdd nag yn flaenorol. Yn y cyd-destun hwn, mae CCAUC wedi gofyn i ASA ystyried ymgorffori ffocws tebyg ar wella ansawdd yn y rhaglen o adolygiadau sefydliadol sydd i ddod yng Nghymru. Er mwyn llywio'r ymagwedd hon comisiynodd CCAUC adolygiad allanol o wella ansawdd a sefydlodd y Gweithgor Ansawdd. Dywed y *Llawlyfr ar gyfer Adolygu Sefydliadol: Cymru* drafft, a fu'n destun ymgynghoriad yn

ddiweddar *'At ddibenion adolygu sefydliadol, ystyrir mai proses yn hytrach na chanlyniad yw gwella ansawdd'.*

2.8 Un o'r nodweddion allweddol eraill ar gyd-destun Cymru yw 'agosrwydd' y llywodraeth at addysg uwch. Yn ystod y degawd diwethaf mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod ystod o flaenoriaethau ar gyfer addysg uwch. Y blaenoriaethau amlycaf fu'r rheini mewn perthynas ag ehangu mynediad, datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, sgiliau a chyflogadwyedd, ac ad-drefnu a chydweithio rhwng sefydliadau AU.

2.9 Yn olaf, un agwedd bwysig iawn ar addysg uwch yng Nghymru yw lefel gyffredinol uchel boddhad cyffredinol y myfyrwyr. Yn ACM 2008, roedd pum sefydliad addysg uwch yng Nghymru yn ymddangos yn y 50 sefydliad brig ar gyfer boddhad cyffredinol myfyrwyr. Yn ddiweddarach, adroddodd arolwg boddhad myfyrwyr *Times Higher Education* ym mis Ionawr 2009 fod pedwar o sefydliadau Cymru ymhlith yr 20 sefydliad brig. Yn gyffredinol, mae boddhad cyffredinol myfyrwyr y sefydliadau hynny yng Nghymru â chenhadaeth ehangu mynediad gref yn is (ystod 75–80%) yn ACM, ond serch hynny mae boddhad cyffredinol myfyrwyr yn gwella ynddynt y naill flwyddyn ar ôl y llall. Fel y daw i'r amlwg yn ddiweddarach yn yr adroddiad, mae canlyniadau ACM yn chwarae rhan bwysig wrth werthuso gweithgareddau gwella yn sefydliadau Cymru. Mae'n werth nodi hefyd gyfran gymharol uchel y myfyrwyr yng Nghymru sy'n astudio'n rhan-amser (tua 40% yn 2007–08). Dyma arwydd fod angen ystyried profiad y myfyriwr yn gyffredinol os bydd materion fel amserlennu a mynediad at adnoddau yn effeithio ar y profiad dysgu.

3. Methodoleg

3.1 Proses

3.11 Aeth y prosiect ati i gasglu a dadansoddi data o wybodaeth a gasglwyd drwy drafodaethau lled-strwythuredig â sefydliadau AU yng Nghymru a gynhaliwyd drwy gynllun cyswllt sefydliadol ASA. Yn ôl natur eu safle yn y sefydliad, cydnabuwyd bod ymatebwyr sy'n swyddogion cyswllt ag ASA yn debygol o fod yn wybodus am ymagweddau ffurfiol at faterion sicrhau ansawdd a gwella ansawdd. Serch hynny, o ystyried natur gyffredinol gwella ansawdd, gofynnwyd i gysylltiadau sefydliadol ystyried yr holiadur o amrywiaeth o wahanol safbwyntiau, gan ystyried, er enghraifft, farnau gan: Ddirprwy Is-gangellorion sy'n gyfrifol am addysgu a dysgu; swyddogion ansawdd; y rheini sy'n ymwneud â chymorth academaidd; a staff sy'n gweithio ar lefel adrannol.

3.12 Er mwyn coladu a dadansoddi barnau'r ymatebwyr, darparwyd fframwaith ar gyfer trafod sicrhau a gwella ansawdd i gysylltiadau sefydliadol a'u cydweithwyr. Bwriad y cwestiynau canllaw yn y fframwaith oedd ysgogi trafodaeth a rhoi arwydd o'r pethau i'w trafod. Fodd bynnag, pwysleisiodd y tîm prosiect nad oedd unrhyw ddymuniad i gwestiynu pam y mae sefydliadau AU yn cymryd gwahanol safbwyntiau, ond yn hytrach, cael golwg gyfannol ar sut y deellir gwella ansawdd.

3.13 Darperir y templed ar gyfer strwythur y trafod yn ystod cyfweliadau yn Atodiad 1 a'r rhestr o sefydliadau sy'n cyfranogi yn Atodiad 2. Roedd y cwestiynau a ddefnyddiwyd yn debyg iawn i'r rheini ar gyfer arolwg Lloegr a Gogledd Iwerddon, er mwyn hwyluso'r broses o gymharu'r canfyddiadau, ond gwnaethpwyd rhai newidiadau i adlewyrchu gwahaniaethau yn sector Cymru.

3.2 Cyfyngiadau'r ymchwiliad

3.21 Mae angen cydnabod y cyfyngiadau ar ganlyniadau'r prosiect, yn sgil y dull casglu data a'r amser a'r adnoddau a oedd ar gael ar gyfer dadansoddi.

O ystyried maint y sector AU yng Nghymru mae'r prosiect yn naturiol yn rhychwantu sampl poblogaeth fach. Yn ogystal â hyn mae amrywiadau sylweddol ym maint sefydliadau Cymru ac ystod eang y cenadaethau mae'r sefydliadau'n eu coleddu.

3.22 Gan gydnabod natur gyffredinol gwella ansawdd, anogwyd trafodaeth agored ac eang; fodd bynnag, roedd y sgyrsiau hyn yn gyffredinol â staff â rôl sicrhau ansawdd yn hytrach na'r rheini sy'n ymwneud â datblygu dysgu ac addysgu. Pan gysylltwyd hyn â maint bach y boblogaeth sampl, roedd yn golygu y gwnaethpwyd rhai datganiadau arwyddocaol, neu ddatganiadau ag agwedd ddiddorol, gan un neu ddau sefydliad yn unig. Mae rhai o'r rhain wedi'u defnyddio neu eu dyfynnu os oedd tîm y prosiect yn teimlo eu bod yn adlewyrchu'r sefyllfa ar draws sector AU Cymru, neu os oeddent yn codi safbwyntiau arbennig o ddiddorol.

3.23 Yn yr adrannau sy'n dilyn, defnyddiwyd sylwadau o'r cofnodion o sgyrsiau i ddarlunio'r amrywiaeth o ymatebion. Cyn belled â phosibl, mae'r rhain yn ddyfyniadau union o'r cofnod, ond bu angen aralleirio weithiau er mwyn egluro ystyr.

4. Effaith Newid

4.1 Newid diweddar a pharhaus yn y sector yng Nghymru

4.11 Yn 2002, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru: Ymgeisio yn Uwch, Addysg Uwch a'r Wlad sy'n Dysgu a oedd yn nodi ei gweledigaeth strategol ynghylch sut byddai'r sector AU yn cyfrannu at gyflawni ei rhaglen addysg a dysgu gydol oes yn y cyfnod hyd 2010. Rhoddod y strategaeth bwyslais cryf iawn ar ehangu mynediad a chyfiawnder cymdeithasol. Mae datblygiadau strategol sylweddol dilynol, mewn ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad, wedi cydnabod pwysigrwydd gwella cyfraddau cadw, gwella cyflogadwyedd graddedigion, parhau twf darpariaeth cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo ad-drefnu a chydweithio rhwng sefydliadau AU Cymru.

4.12 Ym mis Gorffennaf 2008, gan nodi bod cyfnod strategaeth *Ymgeisio yn Uwch* yn dod i ben, gosododd Llywodraeth Cynulliad Cymru uchelgeisiau polisi yn *Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*. Ymhlith yr elfennau allweddol oedd y canlynol:

- diweddaru strategaeth addysg uwch;
- ceisio cyngor gan Gynghorau Sgiliau Sector ar ofynion cyflogwyr am sgiliau lefel uchel;
- ymestyn cyflenwad Graddau Sylfaen;
- gofyniad i gydweithio mewn rhwydweithiau 14–19 rhwng sefydliadau AU, sefydliadau AB a darparwyr dysgu yn y gwaith i ddatblygu llwybrau dilyniant pellach ac ehangu cyfleoedd lleol;
- sefydlu pwyntiau cyrraedd a gadael clir i ddysgwyr ôl-18.

4.13 I fynd ymlaen â'r cynigion hyn aeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ati i sefydlu'r grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu addysg uwch yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth yr Athro Merfyn Jones. Cwblhawyd Cam 1 y gwaith tua diwedd 2008 ac roedd yn canolbwyntio ar gyllid i fyfyrwyr. Yr argymhelliad allweddol oedd symud i ffwrdd o ddarparu grant ffioedd dysgu cyffredinol i fyfyrwyr Cymru i wrthbwyso cost ffioedd, i system

sy'n canolbwyntio cymorth ariannol ar y myfyrwyr hynny â'r angen mwyaf. Roedd cwmpas llawer ehangach gan Gam 2 yr adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2009. Ymhlith y canfyddiadau allweddol oedd cynigion am:

— gytundeb cenedlaethol rhwng sefydliadau AU, darparwyr AU eraill, CCAUC a Llywodraeth Cynulliad Cymru;
— rôl ddiwygiedig i bartneriaethau AU–AB;
— carfan gyfnerthol a chryfach o sefydliadau AU;
— hyrwyddo darpariaeth bellach graddau sylfaen.

4.14 Roedd yr ymateb gweinidogol i'r adroddiad yn amlygu'r canlynol:

> *'Mae'n rhaid i'r gymuned addysg uwch weithio hefyd mewn partneriaeth ag AB, cyflogwyr, Cynghorau Sgiliau Sector a chymryd y llyw oddi wrth Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru er mwyn iddi ddarparu'r sgiliau lefel uwch mae eu hangen arnom yng Nghymru, gan gynnwys ffocws arbennig ar sgiliau rheoli a lefel technegydd, ffyrdd hyblyg o ddysgu, gan gynnwys darpariaeth ran-amser ac yn y gweithle. Mae'n rhaid iddi chwarae rhan allweddol yn agenda trawsnewid y ddarpariaeth ôl-16. Mae arnaf eisiau i'n cymuned Addysg Uwch weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, colegau AB, cyflogwyr a chymunedau i gynnig dewis helaeth o gyrsiau a llwybrau i bobl ifanc ac oedolion sy'n ddysgwyr. Bydd hyn yn ymgorffori ac yn cryfhau'r math o ymagweddau at fynediad a fu'n fwyaf llwyddiannus hyd yma, ac yn gwneud mynediad a chyfranogiad llwyddiannus yn realiti i lawer mwy o ddinasyddion Cymru … Bwriadaf ystyried a datblygu ffyrdd newydd o ddarparu Graddau Sylfaen yng Nghymru, yn ffordd o bontio ein sectorau Addysg Uwch ac Addysg*

Bellach i agor cyfleoedd ehangach a hyblyg i ddysgwyr ac i ddatblygu sgiliau lefel uwch ar gyfer cyflogaeth.'

4.15 O ystyried y polisi Llywodraeth cryf iawn, a'r cymhellion ariannol a ddarperir gan CCAUC i gefnogi polisi, bu angen i wella ansawdd mewn sefydliadau AU fynd i'r afael ag ehangu mynediad a chyfraddau cadw ac ystyried mentrau cydweithredol ag ystod o bartneriaid. Mae adroddiadau'r grŵp Gorchwyl a Gorffen ac ymateb gweinidogol yn rhoi syniad o'r meysydd sy'n debygol o fod yn destun gwella yn y blynyddoedd i ddod.

4.2 Newidiadau mawr mewn sefydliadau

4.21 Cafwyd newidiadau sylweddol yn ddiweddar mewn rhai sefydliadau yng Nghymru yn bennaf o ran ceisiadau am bwerau dyfarnu gradd a theitl prifysgol, a'u cyflawni. O ganlyniad mae rhai sefydliadau wedi cymryd camau tuag at ddyfarnu eu graddau eu hunain tra bo eraill yn parhau i wneud dyfarniadau o Brifysgol Cymru.

4.22 Y prif ddylanwad arall fu menter ad-drefnu a chydweithio Llywodraeth y Cynulliad gyda'r gynghrair strategol rhwng Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Phrifysgol Morgannwg, a'r bwriad i uno Coleg Prifysgol y Drindod a Phrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan.

4.23 Yn arbennig o ran sicrhau ansawdd bu gan yr uno a'r ceisiadau hyn oblygiadau pwysig, ond yn aml mae gwella ansawdd wedi digwydd yn sgil gwella, er enghraifft, materion cwricwlwm a datblygu staff fel asesu ac adborth.

4.3 Yr hyn sy'n symbylu newid i wella ansawdd

4.31 Roedd ymatebion y sefydliadau'n nodi nifer o symbylyddion allweddol am newid ac yn eu plith:

— canlyniadau ACM ac arolygon mewnol eraill o farn myfyrwyr;
— twf ac amrywio parhaus ym mhoblogaeth y myfyrwyr;
— codi disgwyliadau myfyrwyr;
— datblygiad cyflym parhaus dysgu ac addysgu a hybir gan dechnoleg;
— datganoli cyfrifoldeb a mwy o berchenogaeth gan staff ar yr agenda ansawdd;
— ailstrwythuro mewn sefydliadau (e.e. unedau academaidd; y cwricwlwm modiwlaidd);
— proses adolygu sefydliadol newydd ASA yn rhoi mwy o ffocws ar wella ansawdd;
— rhwystrau cyllidebol cynyddol a'r angen i wella effeithlonrwydd.

4.32 Roedd cryn amrywiad ymhlith sefydliadau o ran eu barn am y symbylyddion; nododd un sefydliad eu bod o'r brig i lawr i bob pwrpas gan eu bod yn adlewyrchu gofynion polisi cenedlaethol ac ASA. Er ei fod yn derbyn yr ymagwedd o'r brig i lawr, roedd sefydliad arall yn gweld bod angen meithrin perchenogaeth ar ddatblygiadau mewn ansawdd sy'n codi o symbylyddion allanol.

> *Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod angen cryfhau perchenogaeth ar ansawdd a safonau, a ffydd ynddynt, ymhlith staff academaidd, a bydd hyn yn cael ei feithrin ymhellach drwy ddatganoli cyfrifoldeb fel sy'n briodol i lefel leol.*

Ochr yn ochr â hyn roedd datblygiadau allweddol a symbylwyd o'r gwaelod i fyny ac a oedd yn canolbwyntio ar staff a myfyrwyr yn coleddu ymagweddau newydd at ddysgu ac addysgu a oedd yn cynnwys gwella sgiliau astudio, cyflenwi hyblyg, mynediad 24/7 at ddeunyddiau addysgu, e-ddysgu a rhith-amgylcheddau dysgu.

4.33 I un sefydliad, daeth y cydweithio ar wella rhwng ASA a'r Academi yng Nghymru ar adeg briodol. Roedd yn ceisio ailddiffinio gwella ansawdd a'i ymgorffori yn ei brosesau sefydliadol. Byddai cael gwybod sut yr ystyrir gwella ansawdd ar draws y sector yng Nghymru yn helpu i dywys y sefydliad drwy gyfnod o newid sylweddol.

5. Diffiniadau a chysyniadau gwella ansawdd

5.1 Diffiniadau a chysyniadau

5.11 Yn gyffredinol, ychydig iawn o ddiffiniadau penodol ar gyfer gwella ansawdd a roddodd sefydliadau. Cydnabuwyd yn gyffredinol fod y diffiniad a gynigiwyd gan ASA i'w ddefnyddio mewn adolygu sefydliadol o *'gymryd camau bwriadol ar lefel sefydliadol i wella ansawdd cyfleoedd dysgu'* yn gysyniad defnyddiol at ddibenion adolygu a mabwysiadodd rhai sefydliadau amrywiadau ar y diffiniad hwn at eu dibenion eu hunain. Yn gyffredinol, ffafriwyd diffiniadau cyffredinol, bras a oedd yn rhychwantu gweithgarwch gwella yn hytrach na'i gyfyngu.

> *Mae yna ddiffiniad sefydliadol ond mae'n un sy'n ceisio adlewyrchu'r hyn mae'r sefydliad yn ei wneud yn hytrach na bod yn ddiffiniad a orfodir.*

5.12 Nododd yr ymatebwyr broblem arall wrth geisio diffinio gwella yn union. Dros amser esblygodd gweithdrefnau a pholisïau sefydliadol, yn gyffredin i ymateb i newidiadau ym mhoblogaeth y myfyrwyr neu ailstrwythuro mewnol, ac roedd newidiadau pwyslais ar gyfer gwella o ganlyniad.

5.13 Roedd teimlad cyffredin fod cysyniad gwella ansawdd yn cynnwys newid diwylliannol a bod lledaenu, arfer da er enghraifft, yn gydran allweddol.

> *Mae'r Brifysgol wedi newid teitlau rhai o'i gweithgareddau yn fwriadol i sicrhau y deellir y ffocws gwella. Mae'r Adolygiadau Gwella yn un enghraifft o'r fath ac yn lle canolbwyntio ar Ysgol maent yn gweithredu ar hyd y brifysgol.*

5.14 Cydnabuwyd bod cysyniad gwella ansawdd yn gyffredinol yn cynnwys ymagweddau o'r brig i'r lawr ac o'r gwaelod i fyny. O ystyried y gofynion allanol mewn perthynas â sicrhau ansawdd, cytunwyd yn gyffredin fod angen arweinyddiaeth a chyfarwyddyd cryf ar lefel sefydliadol. I'r gwrthwyneb, nodwyd bod llawer o wella ansawdd yn dod o'r gwaelod i

fyny a'i fod yn adlewyrchu arfer a datblygiadau yn yr ystafell ddosbarth. Llwyddwyd i gyfnewid syniadau ar draws y lefelau hyn drwy bwyllgorau neu drwy unedau datblygu dysgu ac addysgu dynodedig.

5.15 Er nad yw'n ddiffiniad, darparodd un sefydliad grynodeb craff o'r dimensiynau gwella y gellid ei ddefnyddio yn lle diffiniad.

> *Dyma'r nodweddion allweddol ar wella ansawdd llwyddiannus:*
>
> — bod *ag eglurder strategol;*
> — *llywio buddsoddiad a datblygiad strategol y dyfodol;*
> — *gwella* enw da;
> — *cael cydnabyddiaeth am geisio gwneud pethau'n well;*
> — *bod â disgrifiad cliriach o natur prosesau a'u diben;*
> — *ymdoddi i fusnes arferol y Brifysgol.*

5.2 Gwella beth?

5.21 Cytunwyd yn gyffredin yn ymatebion y sefydliadau fod gwella'n ymwneud yn bennaf â phrofiad y myfyriwr, yn arbennig y profiad dysgu. O ystyried yr olaf, cyfeiriodd sefydliadau at gefnogi dysgu drwy dechnolegau newydd ac esblygol, rhoi adborth amserol ar asesu, cefnogi arloesi a lledaenu arfer da.

> *Ystyria'r Brifysgol mai gwella ansawdd yw gwella profiad dysgu'r myfyriwr, gan gynnwys nodi a lledaenu arfer da.*
>
> *Mynd ati i ddatblygu profiad dysgu'r myfyriwr i sicrhau gwell canlyniadau.*

5.22 Nodwyd hefyd fod gwella'n bwysig yng nghyd-destun ehangach profiad y myfyriwr, er enghraifft, wrth ddarparu llety o ansawdd da i fyfyrwyr a chyfleoedd am ddysgu cymdeithasol y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

5.23 Dim ond un sefydliad a soniodd am geisio diffinio ffiniau profiad y myfyriwr, ond mae'n debygol fod y pryder yn ehangach. Roedd ymagwedd y sefydliad hwn, yn seiliedig ar gylch oes y myfyriwr, yn cydsynio â datblygiadau eraill yn sector AU Cymru. Gyda ffocws cryf ar ehangu mynediad ac ehangu dysgu hyblyg, mae nifer o sefydliadau'n rhoi cymorth personol cynyddol i fyfyrwyr ar draws y cylch oes o'r cyfnod cyn eu derbyn i'w graddio a'u cyflogaeth.

> *Mae'r Brifysgol hefyd yn ceisio diffinio'r hyn a olyga wrth "brofiad y myfyriwr" a rhoi ffin o amgylch y diffiniad hwnnw. Bu'r ymagwedd cylch oes o ddefnydd iddi.*

5.3 Gwella ac 'arfer da'

5.31 Er bod ymatebion y sefydliadau yn brin ar ddiffiniad o wella, roedd ystod fwy o ymatebion i'r cwestiwn am ddiffinio ac adnabod arfer da. Fel y nodwyd yn yr ymchwiliad tebyg i wella ansawdd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, gallai'r amrywiaeth hon o ymatebion fod yn arwydd o amrywiaeth yr ymagweddau at wella. Roedd yr ymatebion yn amrywio o'r cryno a'r byr iawn:

> *Dylai arfer da fod yn eglur o effeithiol.*

I'r mwy esboniadol:

> *Datblygu rhywbeth newydd sy'n gwella profiad y myfyriwr … ac sy'n gallu datblygu ymhellach yn arfer da sy'n gallu rhaeadru wedyn i wahanol feysydd.*

5.32 Deallwyd yn gyffredinol fod modd trosglwyddo arfer da drwy sefydliad cyfan; fodd bynnag, cyfeiriwyd hefyd at y ddadl gyfarwydd am y ffaith bod arfer da mewn un maes neu ddisgyblaeth yn arfer normal yn rhywle arall heb fod llawer o gyfle efallai i'w gymhwyso'n ehangach.

> *Nid yw arfer da'n dystiolaeth o wella – y gamp yw gallu ei drosi.*

5.33 Dyma sut y diffiniodd un sefydliad arfer da y mae'n werth ei ledaenu:

> *Nodwedd ar weithgarwch modiwl, rhaglen, pwnc neu ysgol-gyfan sy'n gwella ansawdd profiad y myfyriwr.*

Roedd yr arfer da'n gwella disgwyliadau lleiaf a gallai fod yn drosglwyddadwy ar draws pynciau, ysgolion a'r sector addysg uwch eang. Cyfeiriodd dau sefydliad at brosesau sicrhau ansawdd, er enghraifft monitro blynyddol, yn darparu ymagwedd o'r gwaelod i fyny at adnabod arfer da. Ymhlith ffyrdd o ledaenu arfer da roedd: sefydlu gwefan arfer da sy'n cynhyrchu e-byst awtomatig sy'n gofyn am adborth; cynnal adolygiadau thematig traws-sefydliadol (e.e. o gyfraddau cadw) i nodi a rhannu arfer da; cynnal gweithdai arfer da mewn wythnos datblygu staff; a chynhyrchu cyhoeddiad blynyddol o arfer da ym maes gwella.

5.4 Y berthynas rhwng gwella ansawdd a sicrhau ansawdd

5.41 Soniodd yr holl sefydliadau am gyswllt naturiol rhwng sicrhau ansawdd a gwella ansawdd. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth barn am y berthynas rhwng y ddau. Efallai mai'r argraff fwyaf cyffredin oedd bod gwella ansawdd yn datblygu yn sgil sicrhau ansawdd. Roedd yr olaf, drwy ei brosesau, yn darparu tystiolaeth a deunydd yn sail i wella ansawdd. Ymhlith y prosesau y soniwyd amdanynt oedd monitro blynyddol, dilysu rhaglenni ac archwilio thematig. Cafodd agweddau a nodwyd ar wella eu lledaenu drwy bwyllgorau, diwrnodau cwrdd i ffwrdd, gwefannau, cylchlythyrau a dogfennau pwrpasol fel 'Dysgu o Ddilysu'.

Mae prosesau sicrhau ansawdd yn sail i weithgareddau gwella drwy ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth ar wahanol lefelau, ac fe'u cynllunnir mewn modd nad ydynt yn rhwystro creadigrwydd nac arloesi wrth gynllunio a chyflenwi rhaglenni.

5.42 Gan fod y ffiniau rhwng sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yn niwlog, dywedodd un sefydliad fod angen cydgysylltu agendâu rhwng pwyllgorau ansawdd a thraws-aelodaeth yn y pwyllgorau hyn. Aeth sefydliad arall i'r afael â hyn drwy roi cyfarwyddyd i'r pwyllgor sicrhau ansawdd ystyried gwella ansawdd. Yn yr ymatebion dim ond un sefydliad a nododd ei fod yn ystyried datblygu cynllun gweithredu gwella ansawdd ar wahân, i'w ddarparu efallai yn atodiad i'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu.

5.43 Cafwyd hefyd rai cyfeiriadau diddorol at y berthynas

Mae staff addysgu yn ystyried eu hunain yn 'rhai sy'n gwella ansawdd' yn hytrach na 'rhai sy'n sicrhau ansawdd'.

Sicrhau Ansawdd yw wyneb allanol y brifysgol tra bo gwella ansawdd yn rhywbeth mwy mewnol.

Er bod y datganiadau hyn yn neilltuol, maent yn fwy na thebyg yn adlewyrchu barn lawer mwy cyffredinol, sef bod staff sy'n cynnal gweithgareddau dysgu ac addysgu yn ddieithriad yn gwella profiad dysgu'r myfyriwr. I'r gwrthwyneb, ystyrir bod sicrhau ansawdd yn ymwneud â darparu tystiolaeth o gynnal ansawdd a safonau a oedd yn holl bwysig i ddelwedd allanol y sefydliad.

5.5 Agweddau at graffu allanol ar wella ansawdd

5.51 Wrth gynnal yr ymchwiliad tebyg i sicrhau a gwella ansawdd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, eglurwyd drwy ymatebion sefydliadol ac wedyn gan

gynrychiolwyr cynhadledd y gallai'r gwella ddioddef pe bai'n destun craffu allanol ansensitif. I raddau helaeth roedd hyn yn adlewyrchu'r teimlad bod gwella'n fater mwy personol sy'n canolbwyntio ar y berthynas rhwng staff a myfyrwyr. Roedd ymatebion yng Nghymru'n dangos gofid tebyg. Awgrymwyd y gallai archwiliad manwl o weithgarwch gwella rwystro arloesi a phe byddai gwella ansawdd yn dod yn rhan sylweddol o'r dystiolaeth sy'n sail i ddyfarniadau archwilio ac adolygu, y gallai arwain at ymagweddau mecanistig.

Y perygl yw y bydd sefydliadau'n ymgolli mewn bodloni meini prawf allanol gan arwain at ymagwedd fiwrocrataidd a mecanistig at sicrhau a gwella ansawdd, ar draul datblygiadau mewnol gwerthfawr.

Dylid nodi y cynlluniwyd yr ymarfer ymgynghori ar y fethodoleg adolygu sefydliadol newydd yng Nghymru i ystyried a mynd i'r afael â'r union bryderon hynny.

5.52 Roedd hefyd yn amlwg o'r ymatebion fod sefydliadau'n derbyn bod angen craffu allanol wrth roi cyngor allanol i'r sefydliad ar gynnal ansawdd a safonau. Fodd bynnag, o ran gwella, roedd galw am ymagweddau 'priodol' at graffu allanol ar wella. Prin iawn y nodwyd natur proses graffu briodol, os o gwbl, heblaw ei bod yn ystyried y cyd-destun sefydliadol ac, mae hynny'n awgrymu, yn 'llai manwl'.

Mae'n rhaid gwneud y fath graffu allanol yn y cyd-destun sefydliadol penodol. Gallai fod yn fuddiol craffu ar Wella Ansawdd ei hun – ond dylai natur yr ymagwedd ac unrhyw ddyfarniadau canlynol fod yn briodol.

5.6 Arloesi a risg

5.61 Roedd yr agweddau at graffu allanol a amlinellir uchod yn fwy na thebyg yn adlewyrchu pryder fod risg ynghlwm wrth arloesi, ac felly gwella. Nodwyd y gallai sicrhau ansawdd helpu i liniaru risg.

> *Mae arloesi'n rhan annatod o wella ansawdd. Bydd rhywfaint o risg yn bodoli'n anochel wrth gyflwyno mesurau arloesol ac mae'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn fodd o nodi a lliniaru risg.*

5.62 Roedd yr agweddau a fynegwyd yn ymatebion y sefydliadau yn amrywio o gais i warchod yn erbyn cosbi staff sy'n arbrofi i sicrhau bod arloesi'n rhagweld risg ac nad oedd yn niweidiol i brofiad dysgu'r myfyriwr. Roedd rhai sefydliadau wedi datblygu ymagwedd at leihau risg:

> *Mae'r brifysgol yn defnyddio prosiectau peilot ar gyfer arloesi i asesu cost, budd, risg ac effeithiolrwydd.*

> *Y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu yw'r fforwm ar gyfer dadlau ynghylch arloesi a rheolir y fath fentrau mewn fframwaith rheoli prosiect.*

5.63 Efallai mai un sefydliad a grynhodd orau'r teimlad cyffredinol o ran risg sy'n deillio o arloesi

> *Ystyrir bod risg yn rhan annatod o sefydliad mwy dynamig ac efallai mai marweidd-dra fyddai'r canlyniad heb ryw elfen o risg.*

6. Strategaethau ar gyfer gwella ansawdd

6.1 A yw gwella'n gallu bod yn strategol?

6.11 Prin oedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Y farn oedd bod strategaethau sefydliadol yn ymwneud â newid a gweledigaeth a oedd yn adeiladu ar enwau da cadarn sefydliadau ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft ymchwil neu ehangu mynediad. Cytunwyd bod lle mewn datblygiadau strategol i ddefnyddio gwella ansawdd yn fwy eglur er mwyn annog lledaenu syniadau ac arfer da.

6.2 Ymagweddau eglur ac ymhlyg at ddatblygu gwella ansawdd

6.21 Fel y nodwyd uchod roedd sefydliadau'n ystyried mai gwella ansawdd yw'r allwedd i wella profiad y myfyriwr, yn arbennig y profiad dysgu. Ymhlith yr ymagweddau eglur at hyn oedd:

- sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd (e.e. monitro blynyddol, dilysu) yn llywio gwella ansawdd ac yn cael eu llywio gan wella ansawdd;
- rhoi cyngor, cyfarwyddyd ac adnoddau drwy ganolfannau rhagoriaeth mewn dysgu ac addysgu neu ganolfannau cywerth;
- trefnu cynadleddau mewnol blynyddol sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd a/neu ddarparu cyhoeddiadau mewnol;
- gwobrwyo addysgu rhagorol.

> *Y nod yw gwella ansawdd profiad dysgu'r myfyriwr drwy well gweithdrefnau ansawdd.*
>
> *Mae'r ganolfan ragoriaeth mewn dysgu ac addysgu'n galluogi staff i gynnig am grantiau dysgu ac addysgu ac mae'r rhain yn aml yn canolbwyntio ar wella. Mae hyn wedyn yn cael ei fwydo'n ôl drwy'r system o'r gwaelod i fyny drwy'r Gynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol a chyhoeddiadau yng nghyfnodolyn y ganolfan ragoriaeth.*

6.22 Prin oedd y cyfeiriadau at ymagweddau ymhlyg yn ymatebion y sefydliadau ac roeddent yn canolbwyntio'n gyffredinol ar y berthynas rhwng staff a myfyrwyr a'r hyn a olygir wrth brofiad y myfyriwr.

> *Teimla'r Brifysgol ei bod yn bwysig iddi ddeall yn union yr hyn a olyga wrth y term "profiad y myfyriwr". Mae angen cysylltu hyn â'r cytundeb trafodaethol sydd ganddi â phob un o'i myfyrwyr.*

6.23 Arweiniodd hyn at yr hyn a edrychai, ar ei olwg, fel datganiadau anarferol ond a oedd yn cyfleu natur ymhlyg gwella. Mae'n fwy na thebyg y bydd y teimladau a fynegir isod yn taro tant ymhlith staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phrofiad y myfyriwr.

> *Nid yw Gwella Ansawdd wedi'i ganolbwyntio mewn un maes arbennig ar hyn o bryd ond mae'n codi yn holl weithgareddau'r sefydliad.*

> *Mae diwylliant o wella'n hanfodol. Dylai gwella ansawdd fel proses neu ganlyniad ddod mor weledig nes ei fod yn anweledig.*

6.3 Arweinyddiaeth ar wella ansawdd

6.31 Roedd ymatebion y sefydliadau'n dangos bod arweinyddiaeth yn cael ei darparu ym mron yr holl sefydliadau gan Ddirprwy Is-ganghellor â phortffolio sy'n cynnwys datblygu dysgu ac addysgu neu mewn rhai achosion rôl sy'n rhychwantu sicrhau ansawdd a gwella ansawdd. Roedd deiliaid swydd o'r fath yn cael eu cefnogi'n aml gan uwch bwyllgorau cydgynghorol a chan swyddogion ac unedau cefnogi pwrpasol. Yr argraff gyffredinol o'r ymatebion, er enghraifft lle cyfeiriwyd at y Swyddfa Ansawdd yn cefnogi'r Dirprwy Is-ganghellor, yw bod gan y Dirprwy Is-ganghellor rôl gref sy'n wynebu tuag allan.

> *Mae'r Dirprwy Is-ganghellor yn cadw golwg ar "gamau bwriadol" y sefydliad.*

Mae gwella'n cael ei arwain o adran Polisi Academaidd y Gofrestrfa ac fe'i harweinir gan y Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Addysg a Myfyrwyr.

6.32 Yn ogystal, roedd rhan fwyaf ymatebion y sefydliadau'n cyfeirio at yr angen am arweinyddiaeth ar lefel y Gyfadran neu'r Ysgol a darparwyd hyn fel arfer gan Ddeoniaid neu Ddeoniaid Cyswllt â chylch gwaith ar gyfer dysgu ac addysgu a lledaenu arfer da.

Mae'r Penaethiaid Cyfadran sy'n arwain ar wella yn bresennol yn y pwyllgor Sicrhau Ansawdd.

Fel rheol, roedd grwpiau anffurfiol yn cynorthwyo gwaith y Deoniaid ac roedd yn gofyn am gydgysylltu ymagweddau â Chyfarwyddwyr ar gyfer ystadau, gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth a chanolfannau rhagoriaeth mewn dysgu ac addysgu.

Byddai'r Deoniaid Cyswllt (Dysgu ac Addysgu) hefyd yn cael y dasg benodol o ysgogi gwella ansawdd yn yr Ysgolion a gyd-gysylltir gan y Fforwm Dysgu ac Addysgu a gadeirir gan Gyfarwyddwr y ganolfan ragoriaeth mewn dysgu ac addysgu.

6.33 Roedd un sefydliad â chynllun cymrodoriaeth addysgu yn ystyried rôl arwain fwy i'r cymrodorion addysgu.

Mae'r sefydliad AU wrthi'n ystyried datblygiadau i roi rôl fwy i gymrodorion addysgu mewn nodi a hyrwyddo arfer da ac i arloesi newid a gwelliant ar draws y sefydliad.

6.4 Perthynas gwella ansawdd â chenhadaeth, cynllun corfforaethol, a strategaethau sefydliadol

6.41 Fel y nodwyd mewn paragraffau blaenorol, nid oedd sefydliadau'n ystyried bod gwella ansawdd yn un o brif symbylyddion strategaeth sefydliadol ond roeddent yn ei ystyried yn agwedd allweddol ar holl waith y sefydliad ac yn rhan annatod o gynllunio sefydliadol. Roedd un sefydliad wedi cyflwyno strategaeth gwella ansawdd yn ddiweddar ac roedd un arall wedi penderfynu sefydlu Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Gwella. Cyfeiriodd sefydliadau eraill hefyd at gyswllt cryf rhwng gwella ansawdd a'r strategaeth dysgu ac addysgu.

> *Mae gwella profiad y myfyriwr yn thema reolaidd drwy'r Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesu gyfan, ond mae'r Brifysgol wedi cydnabod y gallai'r fath gyfeiriadau fod yn fwy penodol, a bydd hyn yn cael ei ystyried wrth ddiwygio'r Strategaeth yn 2009/10.*

6.42 Er nad yw'n cael ei nodi'n eglur fel arfer, byddai'n ymddangos mai un rheswm am beidio â chael strategaeth gwella ansawdd benodol oedd gan ei bod yn ofyniad o bob strategaeth ac mai un nod allweddol oedd 'ymgorffori' gwella. Yn wir, dyma oedd nod eithaf yr un sefydliad a gyfeiriodd at strategaeth gwella ansawdd.

> *Ar gyfer 2007–08 cyflwynasom strategaeth Gwella Ansawdd a oedd yn eistedd ochr yn ochr â'r Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesu bresennol a'r gweithdrefnau yn y Canllaw Ansawdd Addysgu. Bydd hyn yn cael ei chyfuno â'r Strategaeth DAA dros amser i hwyluso adrodd am Wella Ansawdd a'i ymgorffori mewn prosesau 'normal'.*

7. Strwythurau a phrosesau gwella ansawdd

7.1 Strwythurau sefydliadol i gefnogi gwella

7.11 Nododd ymatebion y sefydliadau fod y cyswllt agos rhwng sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yn cael ei dderbyn yn gyffredinol. O ran strwythurau a phrosesau, roedd mwy o wahaniaeth barn ac arfer. Roedd tri sefydliad yn ystyried nad oedd yn hanfodol cyfannu'r ddau 'yn ffisegol' ar yr amod bod prosesau i hyrwyddo croesffrwythloni neu bwyllgorau â chylchoedd gwaith clir.

> *Nid yw'r unedau SA a GA yn gwbl integredig … nid ydym yn credu bod strwythur sefydliadol yn bwysig, croesffrwythloni a rhannu sy'n cyfrif.*

> *Mae gan y pwyllgor SA gylch gwaith clir; mae gan y pwyllgor GA gylch gwaith ac agenda waith glir. Y gwahaniaethau allweddol rhwng y ddau yw bod y pwyllgor SA yn ymwneud â rheoli risgiau, safonau, partneriaethau a bod y pwyllgor GA yn ymwneud â gwella'r hyn rydym yn ei wneud i ymateb i fyfyrwyr a'r amgylchedd a'r farchnad.*

> *Mae pwyllgorau proses SA y brifysgol yn cyfrannu at y pwyllgor dysgu ac addysgu cyffredinol sy'n gyfrifol am GA.*

7.12 Roedd un farn amgen a gyflwynwyd gan ddau sefydliad arall yn cydnabod y fantais a geir yn sgil cyfannu sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yn agos.

> *Mae'n allweddol cyd-leoli SA a GA gan ei fod yn helpu i fagu perthnasoedd. Mae awydd ar y lefel ganolog i beidio â gweithredu mewn bocs; rydym yn anelu at fwy o gyfannu er mwyn ehangu'r ddealltwriaeth am bolisïau a phrosesau.*

Mae'r staff sy'n cefnogi sicrhau a gwella ansawdd wedi'u cyfannu'n llawn yn y Swyddfa Academaidd.

7.13 Byddai'n ymddangos bod cyfannu sicrhau a gwella yn dibynnu i ryw raddau ar strwythur mewnol ac arfer gweithredu'r sefydliad ac nad oedd yn flaenoriaeth i sefydliadau Cymru fynd ar drywydd cyfannu strwythurol.

7.14 Er na nodwyd hyn yn uniongyrchol, roedd ymatebion y sefydliadau'n rhoi'r argraff mai'r lle gorau ar gyfer cymorth i wella ansawdd oedd ar lefel y Gyfadran neu'r Ysgol dan arweinyddiaeth Deoniaid neu Ddeoniaid Cyswllt. Nodwyd hefyd fod Deoniaid yn cael cymorth mewn nifer o sefydliadau gan ganolfannau pwrpasol ar gyfer rhagoriaeth mewn dysgu ac addysgu neu eu canolfannau cyfwerth. Roedd yr unedau hyn yn ysgogi mentrau mewn meysydd fel e-ddysgu, datblygu staff, ymchwil addysgeg ac yn gallu annog, cydgysylltu a lledaenu ymagweddau o'r gwaelod i fyny at wella. Ystyriwyd hefyd mai'r rhain oedd y cyswllt allweddol ag asiantaethau gwella allanol fel yr Academi Addysg Uwch. Un o'r agweddau pwysig ar y gwaith ar y lefel hon oedd annog staff i ymgysylltu â gwella ansawdd. Ymhlith y cymhellion roedd dyrchafiad drwy ragoriaeth addysgu, cymrodoriaethau addysgu, adnoddau i gefnogi ymchwil ac arfer arloesol a chynlluniau sabothol. O ran yr olaf, roedd un sefydliad yn treialu cynllun sabothol mewn cysylltiad ag ail-greu rhaglenni.

Mae'r Cynllun Sabothol Ail-greu Rhaglenni'n dechrau drwy werthuso rhaglen cyn ei hail-greu… cred y sefydliad y bydd y cynllunio hwn yn dylanwadu ar wella yn y dyfodol.

7.2 Ymgysylltu myfyrwyr â sicrhau ansawdd a gwella ansawdd

7.21 Yn gyffredinol, rhoddodd sefydliadau ymatebion estynedig am ymgysylltu myfyrwyr â phrosesau ansawdd. Ar lefel ffurfiol, ac yn arbennig o ran sicrhau ansawdd, roedd hyn yn cynnwys cael cynrychiolaeth myfyrwyr effeithiol ar bwyllgorau lefel rhaglen, adran, cyfadran a sefydliad. Fel rheol roedd Undeb y Myfyrwyr yn darparu hyfforddiant i gynrychiolwyr.

Cyfeiriodd rhai sefydliadau hefyd at gynrychiolaeth myfyrwyr ar baneli archwilio ac adolygu. Pan holwyd cysylltiadau sefydliadol am feysydd lle na fyddai'n briodol cael cynrychiolaeth myfyrwyr efallai, soniodd rai ohonynt am bwyllgorau sy'n trafod myfyrwyr eraill yn agored (e.e. byrddau asesu). Nododd sawl sefydliad ei bod yn anodd cael cynrychiolaeth effeithiol, yn arbennig os oedd corff amrywiol o fyfyrwyr â phatrymau dysgu hyblyg a dysgu oddi ar y campws. O ystyried cyfran uchel y myfyrwyr rhan-amser yn sefydliadau Cymru, mae hyn yn debygol o fod yn broblem eang. Roedd un o'r sefydliadau hyn yn ystyried 'rhith' gynrychiolaeth.

> *Mae'r Brifysgol yn ystyried dulliau amgen o ymgysylltu a chyfathrebu â myfyrwyr, gan gynnwys defnyddio'r rhith-amgylcheddau dysgu.*

7.22 Un anhawster rheolaidd y soniwyd amdano yn ymatebion y sefydliadau oedd llwyth gwaith trwm iawn swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr. Hyd yn oed os ydynt yn fach iawn o ran maint, roedd y cymhlethdod arferol yn sefydliadau Cymru sy'n gysylltiedig â rhedeg sefydliad AU ac roedd hyn yn creu problemau i nifer brin y swyddogion sabothol y gallai sefydliad bach eu penodi.

> *Nid oes gan swyddogion sabothol ddigon o amser i gyfrannu cymaint ag yr hoffem at bob maes. Byddai'n ddefnyddiol cael cronfa fwy o swyddogion â diddordeb i alw arnynt ar gyfer yr amrywiaeth o weithgareddau SA a GA yn ogystal â gweithgareddau Prifysgol eraill a gweithgareddau eu Hundebau eu hunain.*

Roedd un sefydliad yn ystyried talu cynrychiolwyr cyfadran i ychwanegu at rôl swyddogion sabothol.

7.23 Ystyriwyd yn bennaf fod ymgysylltu myfyrwyr â gwella yn cynnig gwerthusiad o fodiwlau, rhaglenni a'r sefydliad yn gyffredinol drwy arolygon mewnol, drwy ACM, a thrwy gyfranogi mewn pwyllgorau ymgynghori staff-myfyrwyr, fforymau a phwyllgorau rheoli rhaglen.

Cyfeiriodd dau sefydliad at gynlluniau mwy ffurfiol a oedd yn ceisio cael barn myfyrwyr am faterion ehangach ac roedd gan un sefydliad wefannau seiliedig ar bwnc ar gyfer sylwadau am welliannau, tra bo Cyngor Academaidd Myfyrwyr gan un arall.

> *Mae cynrychiolwyr llais myfyrwyr yn darparu golwg draws-gyfadran a sefydliadol.*
>
> *Mae cynrychiolaeth myfyrwyr ar waith yn gyffredinol o ran prosesau SA a hefyd yn rhai o'r prosesau ar gyfer GA. Er enghraifft, cynrychiolir myfyrwyr ar y panel sydd, bob blwyddyn, yn gwneud penderfyniadau am dderbynyddion y Gronfa Arloesi ar gyfer Dysgu ac Addysgu.*
>
> *Mae gwefannau yn seiliedig ar bwnc hefyd lle gall myfyrwyr roi sylwadau am welliannau.*

7.24 Er y gwyddys bod hyn yn gyffredin yn sefydliadau Cymru, dim ond un ymateb a gyfeiriodd at ddefnyddio mentoriaid myfyrwyr i wella profiad y myfyriwr; yn yr achos hwn, roedd mentoriaid yn cael eu talu. Efallai fod absenoldeb sylwadau a'r pwyslais ar gyfraniad myfyrwyr at wella drwy brosesau sicrhau yn adlewyrchu nad yw sefydliadau eto wedi llawn ystyried sut i ddatblygu rôl myfyrwyr a'u cynrychiolwyr ymhellach. Gallai hefyd adlewyrchu fod sefydliadau Cymru'n ystyried mai swyddogaeth sicrhau ansawdd y mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn ei chyflawni'n bennaf. Wrth symud tuag at fethodoleg adolygu sydd ag agwedd wella gryfach ac sy'n cynnwys myfyrwyr yn fwy mae ASA wedi nodi hyn ac wedi dod ynghyd â'r cyrff cynrychioliadol a'r Cyngor Cyllido yng Nghymru i drafod cyfleoedd, rhannu adnoddau ac arbenigedd a chefnogi gweithgareddau sefydliadau i ymgysylltu â myfyrwyr. Lansir 'Ymagwedd Cymru at ymgysylltu â myfyrwyr' ym mid Hydref 2009.

8. Gwerthuso effaith gwella ansawdd

8.1 Roedd mwyafrif yr ymatebion sefydliadol yn cyfeirio at werthuso effaith gwella ansawdd drwy weithdrefnau fel monitro rhaglenni bob blwyddyn, archwilio ac ACM ac arolygon eraill. I nodi ymateb a oedd yn nodweddu ymateb nifer o sefydliadau, roedd monitro blynyddol yn ystyried cynnydd mewn perthynas â themâu gwella a nodwyd yn strategaeth dysgu ac addysgu'r sefydliad. Darparwyd gwerthusiad drwy eitemau fel adroddiadau arholwyr allanol a'r canlyniadau o ACM.

> *Mae proses fonitro flynyddol sefydliadau'n canfod sut yr ymgysylltwyd â'r themâu gwella perthnasol, a osodwyd gan y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu, a'u heffaith mewn unrhyw flwyddyn benodol. Mae canlyniadau ACM yn fodd o fesur effaith.*

8.2 Er y derbyniwyd yn gyffredinol y gall fod yn anodd mesur cynnydd gwella ansawdd, cyfeiriodd dau sefydliad at ddefnyddio dangosyddion perfformiad allweddol a mesur cynnydd gan ddefnyddio ACM ac arolygon eraill.

> *Rhan o'r broses yw sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau i reoli perfformiad mewn perthynas â hwy … rhan o'r broses yw monitro profiad y myfyriwr yn effeithiol drwy ein harolygon ein hunain, ACM ac ymgysylltu'n uniongyrchol â'r myfyrwyr.*

8.3 Mewn achosion eraill, roedd cynnydd themâu gwella penodol yn cael ei fesur gan ddefnyddio data ystadegol sefydliadol (e.e. cyfraddau recriwtio, cadw, cyflogaeth). Er bod pob sefydliad yn defnyddio ACM gwnaeth ddau ohonynt rybuddio rhag gorddibynnu ar ACM a mesurau eraill i fonitro cynnydd.

> *Rydym yn defnyddio arfau SA safonol – ACM, adborth myfyrwyr, sgoriau gwell mewn tablau cynghrair am ddangosyddion 'profiad y myfyriwr'*

… er ei bod yn anodd mesur a yw gwelliannau o ganlyniad i GA neu ffactorau eraill.

Ystyria'r sefydliad mai'r broblem gydag ACM yw nad yw'n rhaid i fyfyrwyr ddisgrifio eu hatebion … mae arolygon mewnol weithiau'n rhoi gwahanol neges.

8.4 Fel ystyriaeth gyffredinol gellir dweud bod sefydliadau'n parhau i chwilio am ffyrdd o roi tystiolaeth i ddangos effaith gwella ansawdd ac mewn rhai achosion nodwyd y byddai'r dystiolaeth yn ansoddol.

Yn ogystal mae achosion o fentrau newydd yn deillio o rai o'n digwyddiadau rhannu arfer da … y gobaith yw y bydd newidiadau ansoddol yn weladwy (e.e. gwell ymgysylltu gan Ysgolion, gwell ymgysylltu gan fyfyrwyr).

9. Cymorth allanol ar gyfer gwella

9.1 Y brif ffynhonnell gymorth a nodwyd gan nifer o sefydliadau oedd yr Academi Addysg Uwch. Yn arbennig nodwyd mai'r sector AU oedd wedi nodi a dewis themâu gwella'r Academi. Cyflawnwyd hyn drwy ymgynghori ag Addysg Uwch Cymru a Grŵp Sefydliadau Cymru'r Academi. Cydnabuwyd hefyd fod gwaith wedi'i gydamseru rhwng yr Academi, CCAUC ac asiantaethau eraill fel JISC ac ASA.

> *Yng Nghymru, mae themâu'r Academi Addysg Uwch hefyd yn ddylanwadol o ystyried eu bod, yn bennaf, yn themâu a nodwyd gan y sefydliadau AU eu hunain.*
>
> *Mae'n debyg y bu mwy o ymdrech, yn ddiweddar, i gydamseru ymdrechion yr Academi Addysg Uwch/JISC/CCAUC i gefnogi mentrau gwella.*

9.2 Ymhlith y pwyntiau mwy penodol eraill a godwyd gan sefydliadau oedd rhaglen Mewnwelediad a ariennir gan CCAUC i alluogi staff academaidd i weithio gyda chyflogwr a'r rhaglen Academi Newid a oedd yn galluogi sefydliadau i gyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau gwella penodol.

10. Heriau wrth fynd i'r afael â gwella ansawdd

10.1 Ystyriwyd mai adnoddau oedd y brif her. Yn gyntaf, roedd prinder adnoddau ariannol ar gyfer gwella heb fod unrhyw gynlluniau cenedlaethol, er enghraifft, fel y rheini yn Lloegr ar gyfer Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol a Chanolfannau Rhagoriaeth mewn Addysgu a Dysgu. Yn ail, o ran adnoddau staff roedd pryder ynghylch staff yn cael yr amser i ddatblygu a dysgu o newid a ysgogir gan welliant. Er mwyn i staff ymgysylltu â datblygiadau, roedd angen arddangos perthnasedd gwella.

> *Gall GA herio rhai staff i fynd y tu hwnt i'r ffiniau sy'n gyffyrddus iddynt. Mae angen cyfleu'n glir beth yw GA. Mae angen iddo fod yn addas at ddiben.*

10.2 Roedd pryderon hefyd am faint bach y sector AU yng Nghymru, yr her ddwyieithog a'r angen i osgoi ymagweddau plwyfol at wella ansawdd. Roedd y pryderon hyn yn arwydd bod sefydliadau'n cydnabod eu bod yn cystadlu mewn amgylchedd DU-gyfan a byd-eang.

10. 3 Roedd nifer fach o sefydliadau, a chanddynt draddodiad hir o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, wedi paratoi'n dda ar gyfer cyflenwi ac asesu dwyieithog. Fodd bynnag, roedd dau sefydliad yn teimlo ei bod yn anodd datblygu argaeledd dysgu, addysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd diffyg cyllid a nifer gymharol fach y myfyrwyr sy'n chwilio am y fath ddarpariaeth.

11. Cymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon

11.1 Roedd ymatebion y sefydliadau'n nodi nifer o wahaniaethau sylweddol rhwng Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac yn eu plith:

- dylanwad cryf y llywodraeth drwy flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad fel ehangu mynediad, datblygu cynaliadwy, dinasyddiaeth fyd-eang, sgiliau a chyflogadwyedd ac ad-drefnu a chydweithio ar gyfer AU;
- bwlch cyllid amlwg gyda'r sector yng Nghymru'n cael buddsoddiad llawer llai mewn AU;
- yr iaith Gymraeg a chyflenwi dwyieithog;
- lefel uchel y cydweithio rhwng sefydliadau AU Cymru a mwy o gyfle am ddeialog;
- Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.

11.2 Yr argraff gyffredinol oedd bod amgylchedd ffafriol cyffredinol ar gyfer gwella yng Nghymru gyda maint bach y sector AU yn rhoi mantais arbennig.

> *Gallai maint y sector AU yng Nghymru a chymhellion Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cyfleoedd rhagorol am wella yng Nghymru. Gydag Ymagwedd Cymru at Ymgysylltu â Myfyrwyr a Datganiad Dydd Gŵyl Dewi, mae'r cyfle a'r awydd i gydweithredu ym mhob agwedd ar AU.*

11.3 Roedd yr ymagwedd ddwyieithog yn rhoi cymeriad arbennig i AU Cymru ac roedd hyn yn ychwanegu dimensiwn arall at yr agenda gwella.

> *Mae ysgolion yn gweithredu'n ddwyieithog. Mae'n bwysig rhoi cyfle cyfartal i'r rheini sy'n astudio yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae angen i welliannau fod yn berthnasol i'r ddau fath o ddarpariaeth.*

11.4 Er eu bod yn cydnabod ei bod yn haws cydweithio mewn sector bach, nododd dau sefydliad y gallai cystadleuaeth fod yn ffyrnicach.

> *Mae'n llawer haws rhannu syniadau gwella â sefydliadau eraill sy'n gystadleuwyr yng Nghymru nag y mae yn Lloegr (oherwydd ei maint a nifer lai o sefydliadau). Fodd bynnag, mae anfanteision o rannu gwybodaeth â chystadleuwyr fel cynnig am incwm a chystadleuaeth am fyfyrwyr.*

> *Yng Nghymru, mae rhywfaint o gystadleuaeth rhwng sefydliadau am gronfa gyfyngedig o fyfyrwyr rhan-amser; serch hynny, ni ddylai hyn eu hatal rhag rhannu arfer da.*

11.5 O gymharu canlyniadau'r astudiaeth hon o berthynas sicrhau a gwella ansawdd yn sector Cymru â'r rheini o'r astudiaeth gynharach yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae nifer o bethau'n gyffelyb:

— mae diwygio'r prosesau adolygu ac archwilio sefydliadol wedi creu ffocws craffach ar wella a'r teimlad bod yr ymagwedd sicrhau ansawdd yn sylfaen gadarn ar gyfer gwella;
— ni chytunir ar un diffiniad ar gyfer gwella mewn sefydliadau er y derbynnir bod diffiniad ASA ynghylch 'camau bwriadol' yn ddefnyddiol at ddibenion archwilio ac adolygu;
— prin y mae sefydliadau'n datblygu strategaethau gwella ansawdd penodol;
— rhywfaint o anhawster, at ddibenion gwella, wrth ddiffinio ffiniau profiad y myfyriwr ond derbynnir bod gwella'n arbennig o berthnasol i brofiad dysgu'r myfyriwr.

11.6 Disgwylir datblygiadau pellach mewn perthynas ag ansawdd a safonau yn Lloegr ar ôl cyhoeddi adroddiad ASA sef *Thematic enquiries into concerns about academic quality and standards in higher education in England*, cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Arloesedd, Prifysgolion, Gwyddoniaeth a Sgiliau a'r adroddiad sydd i ddod gan Is-bwyllgor Profiad y Myfyriwr ac Ansawdd Addysgu HEFCE am drefniadau ansawdd.

12. Casgliadau

12.1 Ar y cyfan, diben y prosiect a arweiniodd at yr adroddiad hwn oedd cefnogi sefydliadau AU yng Nghymru i fynd ar drywydd gwella ansawdd ar lefelau amrywiol. Er mwyn ysgogi dadl, bwriad tîm y prosiect oedd rhoi gwybod i'r sector y ffyrdd amrywiol y caiff 'gwella ansawdd' ei gysyniadu, ei arwain, ei reoli a'i gefnogi yn sefydliadau Cymru â nodweddion a chenadaethau amrywiol.

12.2 Nod atodol y prosiect oedd cefnogi proses adolygu sefydliadol effeithiol i Gymru. Un agwedd bwysig ar hyn fydd cefnogi timau adolygu i ddod i ddeall mewn cyd-destunau addas yr amryw ymagweddau at wella ansawdd sy'n bodoli ar hyn o bryd.

12.3 Y cyd-destun eang ar gyfer gwella ansawdd yng Nghymru yw un a welodd newid sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf gyda sefydliadau'n ceisio pwerau dyfarnu gradd a theitl prifysgol. Cafwyd hefyd gyfarwyddyd cryf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i addysg uwch yn arbennig ar gyfer ehangu mynediad, cynaliadwyedd, dinasyddiaeth fyd-eang, datblygu sgiliau ac ad-drefnu a chydweithio rhwng sefydliadau. Yn wahanol i Loegr, ni chafwyd cyllid ar gyfer mentrau gwella cenedlaethol ond mae sefydliadau wedi datblygu, ymhlith pethau eraill, ganolfannau ar gyfer dysgu ac addysgu a dulliau gwobrwyo addysgu rhagorol.

12.4 Adlewyrchir llwyddiant cyffredinol sefydliadau yng Nghymru yn gwella profiad y myfyriwr ym moddhad cyffredinol uchel i uchel iawn y myfyrwyr a adroddwyd drwy Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (ACM). O ganlyniad i hyn, bu sefydliadau Cymru'n defnyddio ACM ac arolygon mewnol eraill myfyrwyr yn helaeth i lywio eu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella profiad y myfyriwr.

12.5 Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod sefydliadau'n amharod i roi diffiniadau penodol ar gyfer gwella ansawdd a'i bod yn well ganddynt ddiffiniadau cyffredinol, bras a oedd yn rhychwantu gweithgarwch gwella yn hytrach na'i gyfyngu. Cydnabuwyd yn gyffredinol fod y diffiniad a gynigiodd ASA i'w ddefnyddio mewn adolygu sefydliadol o *'gymryd camau bwriadol ar lefel sefydliadol i wella ansawdd cyfleoedd dysgu'* yn gysyniad

defnyddiol at ddibenion adolygu. Roedd yr holl sefydliadau'n sôn am gyswllt naturiol rhwng sicrhau a gwella ansawdd ac efallai mai'r argraff fwyaf cyffredin oedd bod gwella ansawdd yn datblygu yn sgil sicrhau ansawdd. Roedd yr olaf, drwy ei brosesau, yn darparu tystiolaeth a deunydd yn sail i wella ansawdd.

12.6 Cytunwyd fel rheol yn ymatebion y sefydliadau fod gwella'n ymwneud yn bennaf â phrofiad y myfyriwr, yn arbennig y profiad dysgu. Roedd hyn yn cynnwys ymagweddau o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny. Roedd o'r brig i lawr yn cyfeirio at gyfarwyddyd ac arweinyddiaeth gref ar lefel sefydliadol ac roedd o'r gwaelod i fyny'n adlewyrchu'n gyffredinol arfer a datblygiadau yn yr ystafell ddosbarth. Yn y rhan fwyaf o sefydliadau, roedd arweinyddiaeth yn cael ei darparu gan Ddirprwy Is-ganghellor gyda chefnogaeth gref gan Ddeoniaid a Deoniaid Cyswllt ar lefel y Gyfadran neu'r Ysgol. Ystyriwyd mai'r Academi Addysg Uwch oedd yr asiantaeth allanol allweddol yn cefnogi gwella ansawdd yn sector AU Cymru.

12.7 Teimlwyd yn gyffredinol fod gwella profiad y myfyriwr yn effeithiol yn broses o'r gwaelod i fyny gan adlewyrchu perthynas staff a myfyrwyr yn gyffredinol. Cydnabuwyd ei bod yn anodd mesur y math hwn o weithgarwch a nododd fwy nag un sefydliad fod y gwella hwn yn dod yn 'anweledig', os yw'n llwyddo, wrth iddo ddod yn rhan o arfer a diwylliant arferol y sefydliad i bob pwrpas.

12.8 Roedd gwahaniaeth barn am lefel cyfannu prosesau a strwythurau sicrhau ansawdd a gwella ansawdd. Roedd rhai sefydliadau wedi cyfannu staff y ddau faes yn ffisegol tra bo'n well gan eraill ffurf lai strwythuredig o gyfannu, er enghraifft, drwy osod agenda gyffredin a chylchoedd gwaith gofalus i bwyllgorau priodol. Yn anaml yr oedd gan sefydliadau strategaeth gwella ansawdd benodol.

12.9 Llwyddwyd i ymgysylltu myfyrwyr â gwella ansawdd yn bennaf drwy ymagweddau sicrhau ansawdd gan ddefnyddio cynrychiolaeth myfyrwyr a grwpiau ymgynghorol a oedd yn cynnwys staff a myfyrwyr. Mynegodd rai sefydliadau bryder am lwyth gwaith trwm swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr yn arwain at beth anhawster yn cyflawni deialog llawn.

Wrth symud at bwyslais cryfach ar wella roedd achos o blaid cynnwys myfyrwyr yn fwy ac yn amlach, gan fynd y tu hwnt i gynrychiolaeth.

12.10 Gwerthuswyd effaith gwella ansawdd yn bennaf drwy fonitro rhaglenni'n flynyddol, archwilio ac ACM. Mewn rhai sefydliadau mesurwyd cynnydd themâu gwella a dangosyddion perfformiad allweddol (e.e. cadw, cyflogadwyedd) gan ddefnyddio data ystadegol sefydliadol.

12.11 Ar y cyfan roedd y prosiect yn datgelu diddordeb cryf ac egnïol mewn hyrwyddo gwella ansawdd yn sefydliadau Cymru. Yn ôl y disgwyl roedd ymagweddau amrywiol at wella ac nid oedd y prosiect yn chwilio am atebion 'cywir' i hyrwyddo gwella. Serch hynny, roedd llawer yn gyffredin rhwng sefydliadau a oedd efallai'n arwydd o faint bach a pherthynas glòs y gymuned AU yng Nghymru. Roedd y tir cyffredin yn cynnwys: derbyn bod gwella'n berthnasol yn bennaf i brofiad y myfyriwr; cydnabod bod y diffiniad 'camau bwriadol' o wella yn addas at ddiben adolygu; defnyddio ACM yn arf i werthuso a llywio cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella; a chytuno bod angen cyfannu arweinyddiaeth o'r brig i lawr ac ymrwymiad o'r gwaelod i fyny ar gyfer gwella.

12.12 Yn olaf, bydd nifer o adroddiadau, gan gynnwys adroddiad pwyllgor dethol Tŷ'r Cyffredin ac ymateb Llywodraeth San Steffan sydd i ddod, er nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar drefniadau Cymru, yn dylanwadu'n sylweddol ar feddwl yng Nghymru am ansawdd a sut y caiff ei sicrhau a'i wella.

Atodiad 1 – Templed Holiadur

Diffiniadau a chysyniadau

1. I ba raddau mae'r ffordd mae'r sefydliad yn meddwl am SA a GA ac yn mynd i'r afael ag ef yn newid?
2. Sut ydych chi (y sefydliad) yn diffinio GA a SA?
3. A yw'r diffiniad wedi newid/a yw'n newid?

Strategaethau

4. A yw cysyniad GA wedi'i ymgorffori mewn strategaethau adrannol a/neu sefydliadol?
5. A yw strategaethau sy'n gysylltiedig â GA yn y sefydliad yn newid?
6. Ymhle mae arweinyddiaeth ar GA (os oes modd enwi person o'r fath)?

Prosesau sefydliadol

7. I ba raddau mae prosesau SA a GA yn gysylltiedig (neu ar wahân) yn y sefydliad?
8. Datblygwyd datganiad traws-sectoraidd diweddar ar ymgysylltu â myfyrwyr yng Nghymru. Ymhle mae'r sefydliad mewn perthynas â'r datganiad hwn yn eich barn chi?
9. Sut ydych chi'n gwybod pa effaith mae GA yn ei chael ar y sefydliad? Ym mha ffyrdd ydych chi'n dod i wybod?
10. A yw prosesau ansawdd sefydliadol (e.e. monitro, adolygu, dilysu, gwella) yn newid yn y sefydliad?
11. Sut byddwch chi'n gwybod beth yw effaith y newidiadau i brosesau?

Strwythurau sefydliadol

12. Pwy sy'n rhan o'r strwythurau yn y sefydliad (e.e. pwyllgorau, timau, canolfannau, unedau) sy'n cefnogi GA?

13. A ydynt yn bobl wahanol i'r rheini sy'n ymwneud â SA?
14. A yw strwythurau ansawdd sefydliadol yn newid yn y sefydliad?
15. Sut byddwch chi'n gwybod beth yw effaith newid strwythurol?

Cwestiynau ychwanegol

16. Beth yw nodweddion hanfodol GA da yn eich barn chi?
17. Beth yw'r heriau i GA effeithiol?
18. Pa ran sydd gan risg, arloesi mewn GA?
19. Beth mae 'arfer da' yn ei olygu a sut y gall gyfrannu?
20. Os bydd eich ymagwedd at GA yn effeithiol/llwyddiannus, sut bydd y sefydliad yn wahanol ymhen 5 mlynedd?
21. Pa ran ddylai craffu allanol ei chwarae mewn GA?
22. A oes unrhyw faterion ynghylch gwella sy'n benodol i sefydliadau yng Nghymru yn eich barn chi?

Atodiad 2 – Sefydliadau sy'n Cyfranogi

Mae'r tîm prosiect yn ddiolchgar iawn am gydweithrediad yr holl sefydliadau a gyfranogodd.

Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Prifysgol Caerdydd
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Glyndŵr
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
Prifysgol Cymru, Casnewydd
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Fetropolitan Abertawe
Coleg Prifysgol y Drindod
Prifysgol Cymru

Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch

Mae'r QAA yn gwirio sut mae prifysgolion y DU yn cynnal eu safonau a'u hansawdd academaidd eu hunain. Rydym yn adolygu ac yn adrodd ar y modd y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau, yn nodi arfer da ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella. Rydym yn cyhoeddi canllawiau i helpu prifysgolion a cholegau'r DU i ddatblygu systemau effeithiol i sicrhau bod myfyrwyr yn cael y profiad dysgu gorau.

Mae'r QAA yn gorff annibynnol sy'n cael ei ariannu trwy danysgrifiadau gan brifysgolion a cholegau a thrwy gontractau gyda'r cyrff ariannu addysg uwch.

Published by:
The Higher Education Academy
Innovation Way
York Science Park
Heslington
York YO10 5BR

Tel: +44 (0)1904 717500
Fax: +44 (0)1904 717505

ISBN 978-1-907207-04-4
© The Higher Education Academy
September 2009

All rights reserved. Apart from any fair dealing for the purposes of research or private study, criticism or review, no part of this publication may be reproduced, stored in a retrieval system, or transmitted, in any other form or by any other means, graphic, electronic, mechanical, photocopying, recording, taping or otherwise, without the prior permission in writing of the publishers.

To request copies of this report in large print or in a different format, please contact the Academy.